# <u>Cyfarfodydd Atebolrwydd Cyhoeddus GIG Cymru</u>

Nod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw cynnal cyfarfodydd presennol y Cyd-dîm Gweithredol ar ffurf sesiynau atebolrwydd cyhoeddus byw gyda phob sefydliad iechyd drwy gydol y flwyddyn ariannol hon. Bydd y cyfarfodydd hyn â Chadeiryddion y GIG yn hollbwysig o ran helpu Gweinidogion Cymru i warantu bod GIG Cymru yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau ac yn gwella tryloywder cyhoeddus ein gweithdrefnau atebolrwydd.

Bydd y cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio ar gyflawni gweithredol drwy gydol y flwyddyn, gan fynd i'r afael â chynlluniau'r byrddau iechyd, statws a rhagolygon ariannol, ansawdd a diogelwch, yn ogystal â risgiau o ran cyflawni.

Bydd y cyfarfodydd yn rhai rhyngweithiol, gan fanteisio ar bapur tystiolaeth ysgrifenedig dwyieithog a gyflwynir o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod. Bydd agenda a phecyn data yn cael eu dosbarthu cyn pob cyfarfod.

Bydd cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru, a byddwn yn defnyddio digwyddiadau byw Microsoft Teams i ddarlledu fideo a chynnwys cyfarfodydd i gynulleidfaoedd mawr ar-lein, gan hwyluso cyfathrebu un-i-lawer. Gall pob digwyddiad ganiatáu i hyd at 10 aelod o bob bwrdd iechyd fod yn bresennol yn bersonol yn y cyfarfod, a gall eraill ymuno â'r digwyddiad o bell. Caiff bathodyn enw ei roi i bob unigolyn a fydd yn bresennol yn bersonol pan fyddant yn cyrraedd y dderbynfa.

Bydd y ddolen i ddigwyddiad byw MS Teams ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Pan fydd cyfranogwyr yn ymuno â'r digwyddiad byw, bydd eu gwybodaeth bersonol yn cael ei anonymeiddio, ac ni fydd ganddynt fynediad i'r nodwedd Holi ac Ateb.

Bydd trawsgrifiad awtomataidd o'r cyfarfod yn cael ei greu i gynorthwyo gyda chofnodion y cyfarfod. Unwaith y bydd y cofnodion wedi'u cwblhau, bydd y trawsgrifiad yn cael ei ddileu, a bydd y cofnodion ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Bydd recordiadau ac agendâu blaenorol yn cael eu harchifo ar y wefan er mwyn gallu cyfeirio atynt yn y dyfodol.

**Data Personol.**

Bydd cymryd rhan yn y cyfarfodydd hyn yn golygu bod Llywodraeth Cymru, fel rheolwr data, yn prosesu eich data personol. Byddwn yn gwneud hynny o dan ein tasg gyhoeddus a'r awdurdod swyddogol a roddwyd inni. Mae eich enw a'ch cyfeiriad e-bost yn angenrheidiol i gael mynediad i'r lleoliad a chymryd rhan yn y digwyddiad. Os na fyddwch yn darparu'r wybodaeth hon, efallai na fyddwn yn gallu caniatáu mynediad na hwyluso eich cyfranogiad.

Byddwn yn casglu gwybodaeth am eich gofynion hygyrchedd, rhif cofrestru car ac ati, gyda'ch caniatâd, i sicrhau amgylchedd diogel a chynhwysol.

Bydd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd ac yn cael ei recordio i'w ddefnyddio yn ddiweddarach. Mae hyn yn awgrymu y bydd eich data personol gan gynnwys eich llais, eich wyneb a'ch enw yn weladwy i'r gynulleidfa yn ystod y digwyddiad. Bydd recordiad y cyfarfod ar gael i'r cyhoedd ar wefan Llywodraeth Cymru.

Ni fydd Llywodraeth Cymru yn rhannu eich data personol ag unrhyw un arall. Bydd y cyfarfod yn cael ei recordio drwy Microsoft Teams a'i gyhoeddi ar Sianel YouTube Llywodraeth Cymru.

Rydym yn cadw enwau cyd-dîm gweithredol GIG Cymru ar gyfer cyfarfodydd atebolrwydd. Bydd yr enwau hyn yn cael eu cadw trwy gydol y cyfarfodydd ac am dair blynedd ar ôl hynny, yn unol â'n polisi gwaredu cofnodion, oni bai bod aelod yn gofyn am dynnu eu cyfeiriad e-bost.

Mae recordiadau'n cael eu rhannu'n gyhoeddus a byddant ar gael ar sianel YouTube Llywodraeth Cymru am gyfnod o 10 mlynedd.

Bydd gwybodaeth am hygyrchedd ac ati yn cael ei dileu ar ôl i'r cyfarfod ddod i ben.

**Eich hawliau**

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data mae gennych yr hawliau a ganlyn:

- yr hawl i gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch gan Lywodraeth Cymru a chael copi ohono
- yr hawl i ofyn inni gywiro unrhyw beth sy'n anghywir yn y data hwnnw
- yr hawl i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data (o dan amgylchiadau penodol)
- yr hawl i ofyn bod eich data yn cael ei 'ddileu' (o dan amgylchiadau penodol)
- yr hawl i gludadwyedd y data (o dan amgylchiadau penodol)
- yr hawl i wneud cwyn a'i gyflwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

**Manylion Cyswllt**

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac yn ei defnyddio, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan GDPR y DU, gweler y manylion cyswllt isod:

<table>
<tr><td colspan="2">Perfformiad ac Uwchgyfeirio<br>Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, CAERDYDD CF10 3NQ<br>E-bost: perfformiadacuwchgyfeirio@llyw.cymru</td></tr>
<tr><td>Swyddog Diogelu Data<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>CAERDYDD<br>CF10 3NQ<br>E-bost: SwyddogDiogeluData@llyw.cymru</td><td>Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth<br>Wycliffe House<br>Water Lane<br>Wilmslow<br>Swydd Gaer / Cheshire<br>SK9 5AF<br>Rhif ffôn: 0303 123 1113 www.ico.org.uk</td></tr>
</table>